# Seithfed Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu - Cofnodion

**Dyddiad: 20 Tachwedd 2013**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Amser: 12.15**

**Yn bresennol:**
- Joyce Watson AC (Llafur Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru) (Cadeirydd)
- Nick Ramsay AC (Ceidwadwyr Cymreig, Mynwy)
- William Powell AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru)
- Joy Kent, Chwarae Teg
- Kate Lloyd, CITB
- Kate Attwood, Parsons Brinckerhoff
- Tina Hatton-Evans, Faithful and Gould
- Sarah Jones, Faithful and Gould
- Anthony Rees, Cynllun Prentisiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru
- Donna Griffiths, Rheolwr y Strategaeth Sgiliau, CITB Cymru Wales

**Ymddiheuriadau:**
- Paul Davies AC (Ceidwadwyr Cymreig, Preseli Sir Benfro)
- Mark Isherwood AC (Ceidwadwyr Cymreig, Gogledd Cymru)
- Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, De-orllewin Cymru)
- Eluned Parrott AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Canol De Cymru)
- David Rees AC (Llafur Cymru, Aberafan)
- Rebecca Evans AC (Llafur Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

*Darparodd cynrychiolwyr o gwmni Grayling wasanaethau ysgrifenyddol i'r grŵp.*

DRAFT

---

**<u>Cofnodion</u>**
*D.S. Nid trawsgrifiad gair am air yw'r cofnodion hyn.*

Agorodd **Joyce Watson AC** y cyfarfod, ac awgrymodd y dylid ei gynnal ar ffurf grŵp trafod yn hytrach na chyfres o gyflwyniadau. Nododd Joyce y byddai'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei ohirio tan gyfarfod nesaf y grŵp yn y Flwyddyn Newydd.

Dechreuodd **Joyce Watson AC** drwy ofyn a oedd sefyllfa menywod yn y diwydiant adeiladu wedi gwella ai peidio.

Nododd **Joy Kent (Chwarae Teg)** y gallai pobl eraill roi gwell darlun o sefyllfa menywod yn y diwydiant adeiladu yn benodol, ond roedd cynnydd wedi'i wneud o ran cydraddoldeb yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae dynion yn cynrychioli 99% o'r diwydiant adeiladu o hyd.

Awgrymodd **Kate Lloyd (CITB)** mai 99% yw'r ystadegyn ar gyfer y gweithlu yn y sector nad ydynt yn gweithio â llaw (technegol/proffesiynol a gweinyddol), a dim ond tua 0.6% o'r gweithlu crefftau sy'n fenywod.

Ychwanegodd **Joy Kent (Chwarae Teg)** fod **Chwarae Teg** am weld Cymru sy'n ffynnu, ac felly mae am fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ym mhob rhan o'n bywydau.

Eglurodd **Kate Attwood (Parsons Brinckerhoff)** ei bod yn llysgennad adeiladu, a’i bod wedi gwneud y gwaith hwn ers 11 mlynedd. Mae hon yn rôl bwysig sy’n helpu i fynd i’r afael â diffyg sgiliau a chefnogi amrywiaeth yn y gweithlu. Un o fanteision ei rôl fel llysgennad yw gallu ymweld ag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o adeiladu fel proffesiwn, a helpu pobl i sylweddoli y gallant ddewis adeiladu fel gyrfa. Nid yw rhai yn gweld cysylltiad rhwng eu sgiliau a’u cryfderau presennol, a sut y gallent fynd ar drywydd peirianneg fel gyrfa, er enghraifft. Y nod yw gosod esiampl i’r rhai sy’n methu, yn draddodiadol, â dod o hyd i esiampl o’r fath yn yr ysgol.

Eglurodd Kate ei bod wedi ymuno â’r diwydiant mewn ffordd draddodiadol, drwy fynd i’r brifysgol. Mae eraill yn ymuno â’r diwydiant drwy ddilyn llwybrau gwahanol, ac mae’n hollbwysig dangos y llwybrau gwahanol hynny er mwyn ymgysylltu â’r rhai na fyddant yn dechrau eu gyrfaoedd o lwyfan academaidd. Y nod yw bod yn esiampl dda y gall pobl ifanc a darpar recriwtiaid uniaethu â hi. At hynny, eglurodd Kate, fel llysgennad sy’n fenyw, ei bod yn ceisio pwysleisio nad yw eich gyrfa yn dibynnu ar eich rhyw, a bod manteision i ddal ati i ddysgu ni waeth ffordd yr ewch ati i wneud hynny.

Holodd **Joyce Watson AC** a oedd pobl ifanc yn cael eglurhad o’r gwahaniaethau rhwng mathau o hyfforddiant – cynlluniau prentisiaeth a dulliau eraill, a manteision y gwahanol ddulliau.

Eglurodd **Kate Attwood (Parsons Brinckerhoff)** fod y cyngor yn cael ei roi mewn pytiau cryno – sydd wedi’u cynllunio i apelio at bobl ifanc 16 a 17 oed, ac maent yn dangos sut y gall gyrfaoedd ddatblygu.

Holodd **Joyce Watson AC** a oedd pobl ifanc yn cael eu cynghori bod prentisiaethau’n angenrheidiol.

Eglurodd **Anthony Rees (Rheolwr Rhanbarthol, Cynllun Prentisiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru)** mai dyma yw’r achos ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, ond efallai y dylid cyflwyno llwybrau i mewn i’r proffesiwn yn wahanol gyda grwpiau hŷn, y rhai dros 25 oed yn arbennig – yn enwedig os oes ganddynt anghenion ariannol gwahanol.

Ychwanegodd **Kate Lloyd (CITB)** fod y ffordd y cyflwynir yr yrfa yn broblem wrth geisio mynd i’r afael ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau, neu ddenu recriwtiaid o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig.

Ychwanegodd **Joy Kent (Chwarae Teg)** fod Chwarae Teg wedi ystyried edrych a oes gan fenywod sy’n dechrau ar eu gyrfa, a rhai sy’n dychwelyd i fyd gwaith, safbwyntiau gwahanol ar yrfaoedd.

Eglurodd **Tina Hatton-Evans (Faithful and Gould)** fod hyder yn ffactor pwysig, a bod hynny’n berthnasol i unigolyn sy’n ystyried ymuno â’r diwydiant, neu gyflogwr sy’n dewis cyflogi menyw mewn rôl nad yw’n cael ei chysylltu’n draddodiadol â menywod.

Ychwanegodd **Sarah Jones (Faithful and Gould)** ei bod yn gwybod am un cyflogai sydd wedi symud o swydd weinyddol yn y sector adeiladu i faes tirfesur – ond mae’n rhaid cael hyder cyn camu i faes a gysylltir â dynion yn draddodiadol.

Nododd **Anthony Rees (Rheolwr Rhanbarthol, Cynllun Prentisiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru)** ei fod yn gweithio gyda phum coleg, ac nid oes yr un ferch wedi’i chofrestru ar y cynllun Llwybrau at Brentisiaethau. Awgrymodd fod problem gyda’r cyfarwyddyd gyrfaoedd a roddir mewn ysgolion yn enwedig, a’i bod yn anodd iawn cyfleu’r wybodaeth gywir.

DRAFT

Ychwanegodd **Tina Hatton-Evans (Faithful and Gould)** fod menywod, o bosibl, yn llai parod i gymryd risgiau na dynion, ac felly nid ydynt yn ystyried adeiladu fel proffesiwn am eu bod yn ansicr beth a ddaw o hynny.

Awgrymodd **Anthony Rees (Rheolwr Rhanbarthol, Cynllun Prentisiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru)** y gallai rhoi mwy o bwyslais ar y proffesiynau technegol sy'n rhan o'r sector adeiladu, fel peirianneg a phensaernïaeth ac ati, arwain at recriwtio mwy o fenywod.

Nododd **Donna Griffiths (CITB)** fod cynllun ar waith gan CITB ar yr A465 ym Mlaenau Gwent lle y mae prentisiaethau o'r fath yn cael eu treialu – bydd y prentisiaethau a'r cyfleoedd hyfforddi yn cefnogi anghenion sgiliau Cylchffordd Cymru, a datblygiadau eraill o ran heolydd, traffyrdd a seilwaith yng Nghymru yn y dyfodol.

Ychwanegodd **Anthony Rees (Rheolwr Rhanbarthol, Cynllun Prentisiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru)** mai'r her yw ennyn diddordeb pobl yn ddigon cynnar.

Eglurodd **Kate Lloyd (CITB)** ei bod yn gweithio fel peiriannydd silfil, ac er mai prin yw'r menywod sy'n gweithio yn y sector, mae yn dal yn rhaid iddynt frwydro yn erbyn rhagfarnau ac amheuaeth er mwyn sicrhau swydd. Dywedodd mai dyna'r rheswm nad yw'r menywod hynny sy'n llwyddo i sicrhau swydd yn y sector yn aros yno'n hir. Y farn gyffredinol yw bod llawer yn gadael i gael plant, ond, ar y cyfan, nid yw hynny'n wir. Hyd yn oed os bydd hynny'n digwydd, prin iawn yw'r menywod sy'n dychwelyd i'r proffesiwn ar ôl eu cyfnod mamolaeth, ac nid yw hynny'n wir mewn diwydiannau eraill. Rhaid canolbwyntio ar roi cyngor gyrfaoedd cadarn, sicrhau parch cydradd a herio camdybiaethau. Rhaid ystyried strwythur y diwydiant, yr amodau gwaith a'r amgylchedd gwaith i'w gwneud yn rhywle y gall pawb weithio yno. Mae cyflogi grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn wrthgynhyrchiol os na all y diwydiant eu cefnogi a'u cadw.

Ychwanegodd Kate fod CITB yn ceisio newid pwyslais y drafodaeth ynghylch menywod yn y diwydiant adeiladu, gan ganolbwyntio ar 'Degwch, Cynhwysiant a Pharch' yn hytrach na 'chydraddoldeb ac amrywiaeth'. Mae CITB wedi datblygu Fframwaith Tegwch i fynd i'r afael â hyn. Mae chwe egwyddor allweddol i'r fframwaith:

- Proses ddysgu syml, strwythuredig a pharhaus i fwydo sefydliadau yn y diwydiant
- Cydnabod gofynion, heriau a chryfderau o ran tegwch, cynhwysiant a pharch sy'n benodol i'r diwydiant adeiladu
- Herio arfer y diwydiant a chanfyddiadau sefydliadau
- Llywio, galluogi a chydnabod newid cadarnhaol
- Ei fod wedi'i arwain a'i gefnogi gan ddiwydiant a sefydliadau sy'n ymrwymedig i degwch, cynhwysiant a pharch
- Creu amgylchedd sy'n ei gwneud yn bosibl i arweiniad cadarnhaol ffynnu, gan arwain at newid diwylliant

Eglurodd Kate fod y fframwaith wedi'i ddatblygu i greu proses y gellir ei haddasu ar gyfer pob math o sefydliadau yn y sector adeiladu, contractwyr, ymgynghorwyr, cleientiaid, cymdeithasau tai, adeiladwyr tai, ffederasiynau a sefydliadau ac ati.

Ychwanegodd **Anthony Rees (Rheolwr Rhanbarthol, Cynllun Prentisiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru)** y byddai'n hollbwysig ymgysylltu ag ysgolion – dyma lle y mae colegau ac ysgolion sydd â chweched dosbarth yn cystadlu am fyfyrwyr.

Roedd **Nick Ramsay AC** yn ansicr a oedd ysgolion yn deall gyrfaoedd ym maes adeiladu.

DRAFT

Cytunodd **Kate Lloyd (CITB)**, gan egluro bod cynifer o athrawon wedi gweithio yn y sector addysg drwy gydol eu gyrfaoedd, nid ydynt yn gwybod rhyw lawer am yrfaoedd galwedigaethol, ac felly ni allant roi cyngor gwybodus ynglŷn â hyn.

Holodd **Joyce Watson AC** sut y dylai'r sector ymateb, o ran ymgysylltu ag ysgolion a phlant.

Ychwanegodd **Donna Griffiths (CITB)** fod enghreifftiau o arfer da ledled Cymru. Ychwanegodd fod polisïau caffael yn ffordd bwysig o gynnig cyfleoedd profiad gwaith, ac y gellir defnyddio polisïau mantais gymunedol i godi ymwybyddiaeth o'r manteision lu sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd ym maes adeiladu.

Roedd **Sarah Jones (Faithful and Gould)** yn dadlau bod amrywiaeth eang o yrfaoedd y gellid ystyried eu bod yn dod o dan bennawd y diwydiant adeiladu – hyd yn oed dylunio mewnol, felly mae swydd i bawb yn y diwydiant adeiladu. Dyna sy'n rhaid ei gyfleu.

Cytunodd **Anthony Rees (Rheolwr Rhanbarthol, Cynllun Prentisiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru)** fod gan gymalau cymdeithasol ran bwysig i'w chwarae, ond bod y cyngor a roddir gan wasanaethau gyrfaoedd yn hollbwysig.

DRAFT

Ychwanegodd **Tina Hatton-Evans (Faithful and Gould)** fod y cyngor a welodd ar wefan Gyrfa Cymru yn atgyfnerthu stereoteip y diwydiant, ac ni fydd hynny'n helpu i recriwtio gweithlu amrywiol, na denu menywod i'r diwydiant. Roedd y prif yrfaoedd a nodwyd o dan bennawd y proffesiwn yn cynnwys gosod brics a gwaith fel plymwr.

Awgrymodd **Joy Kent (Chwarae Teg)** y gallai fod yn werth newid y system bresennol fel bod yn rhaid i ysgolion gyrraedd targedau o ran anfon myfyrwyr ymlaen i brentisiaethau yn ogystal ag addysg uwch. Ond yn y pen draw, agweddau cymdeithasol yw gwraidd y broblem – mae gwaith ymchwil yn dangos ein bod, fel cymdeithas, yn tueddu i greu stereoteipiau o'r mathau o rolau neu ffyrdd o ymddwyn sy'n briodol o fewn cymdeithas ar gyfer bechgyn a merched pan fyddwn rhwng 3 a 5 oed, ond mae mwy na hynny i'r broblem. Mae cymdeithas yn dal i weld menywod fel gofalwyr yn gyntaf ac enillwyr cyflog yn ail, ac mae'r gwrthwyneb yn wir yn achos dynion. Mae Chwarae Teg hefyd wedi gweithio ar fenter sy'n tynnu athrawon allan o'r ystafell ddosbarth i gael blas ar waith yn y sectorau galwedigaethol fel y gallant roi cyngor gwell yn y maes hwn. Ni fydd y sefyllfa'n symud ymlaen oni eir ati i herio'r stereoteipiau hyn.

Ychwanegodd **Sarah Jones (Faithful and Gould)** ragor o adborth ar wefan Gyrfa Cymru, gan egluro nad oedd yn cynnig unrhyw fanylion perthnasol ynglŷn â lle y dylai unigolion fynd am wybodaeth bellach – yn wahanol iawn i'r wefan gyfatebol yn Lloegr.

Nododd **Kate Lloyd (CITB)** fod rhai cynlluniau wedi bod ar waith ers tipyn o amser ac efallai bod angen cymryd camau pellach er mwyn llwyddo. Mae'r Fframwaith Tegwch yn cael ei dreialu ledled y DU, ac mae'n ystyried materion ehangach o ran tegwch a allai fod yn rhwystro pobl rhag ymuno â'r diwydiant, er enghraifft y diwylliant cosbrestru (blacklisting), cyflogau teg ac ati. Mae'n mynd i'r afael â'r meysydd hynny lle y mae gan y diwydiant enw gwael. Cafwyd ymateb da i gyfnod peilot y cynllun ac fe'i rhoddir ar waith yn eang ym mis Ebrill. Yng Nghymru, mae pum prif gontractwr a phedwar is-gontractwr eisoes yn gweithio ar y cynllun peilot.

Mae'r ymgyrch hefyd yn ystyried a yw rhai cwmnïau'n bodloni deddfwriaeth gyflogaeth sylfaenol – yn enwedig cwmnïau llai o faint a allai fod yn torri'r gyfraith. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan mai busnesau bach yw asgwrn cefn yr economi yn y sector hwn.

Cyfeiriodd **Joyce Watson AC** yn ôl at bolisïau caffael, gan ychwanegu bod cymalau cymdeithasol yn hollbwysig. Soniodd am ei hymweliad diweddar â Chyngor Sir Caerfyrddin a

chynllun prentisiaeth ar y cyd Cymdeithas Hyfforddiant Adeiladu Sir Gaerfyrddin. Mae'r cynllun yn llwyddiant mawr, ond mae lle i'w wella o ran amrywiaeth. Roedd yn cytuno a Kate y byddai angen fframwaith er mwyn cydgysylltu elfennau.

Cytunodd **Kate Lloyd (CITB)** fod dull cydgysylltiedig wrth wraidd y Fframwaith Tegwch, ac mae fersiynau yn cael eu paratoi ar gyfer cleientiaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat o ran yr effaith y gall caffael ei chael. Mae'n hyblyg er mwyn bodloni elfennau gwahanol sy'n berthnasol i'r diwydiant a busnesau gwahanol.

Ychwanegodd **Joyce Watson AC** y byddai'n ymchwilio i'r pryderon a godwyd ynghylch gwefan Gyrfa Cymru, yn enwedig yn awr bod y wefan yn eiddo i'r cyhoedd.

Cyfeiriodd **Nick Ramsay AC** yn ôl at bwynt a wnaed gan Kate Lloyd, sef nad oedd pobl ifanc, o reidrwydd, yn gweld cysylltiad rhwng y seilwaith o'u hamgylch a chyfleoedd gyrfa.

Ychwanegodd **Anthony Rees (Rheolwr Rhanbarthol, Cynllun Prentisiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru)** mai heolydd a phontydd oedd llawer o'r seilwaith hwn, sy'n dod o dan fantell peirianneg sifil – ac mae llawer llai o brentisiaethau ar gael yn y maes hwn.

Nododd **Donna Griffiths (CITB)** fod CITB yn ymchwilio i'r maes hwn ar hyn o bryd.

Ychwanegodd **Tina Hatton-Evans (Faithful and Gould)** mai mater o ddewis ydoedd yn y bôn, a bod angen sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i wneud y dewisiadau hyn.

I gloi, awgrymodd **Joyce Watson AC** fod dau brif fater i'w ystyried:

- Y gystadleuaeth rhwng colegau ac ysgolion sydd â chweched dosbarth, a'r cyngor gyrfaoedd a roddir ar y cam hwn ym mywydau pobl ifanc
- Sicrhau bod pobl sy'n gosod esiampl dda ar gael i roi cyngor priodol ac ysbrydoliaeth i bobl ifanc ar yr adeg gywir

Ychwanegodd **Joy Kent (Chwarae Teg)**, er y gall diwygio prosesau caffael fod yn fodd i gefnogi buddion cymdeithasol drwy gymalau cymdeithasol, roedd diffyg ymdrech i gefnogi amrywiaeth yn y maes hwn.

Roedd **Tina Hatton-Evans (Faithful and Gould)** yn cytuno, gan ddweud y defnyddir ymarferion caffael fel esgus, yn aml, o ran amrywiaeth – ymarfer ticio blychau nad oes modd ei gyflawni ond drwy ddenu mwy o fenywod i swyddi uwch yn y diwydiant er mwyn cefnogi newid gwirioneddol.

Awgrymodd **Kate Lloyd (CITB)** nad cwotâu oedd y ffordd ymlaen, gan y gallant fod yn wrthgynhyrchiol ac atal menywod rhag symud ymlaen yn y diwydiant. Ychwanegodd mai dyna fantais y Fframwaith Tegwch; mae'n hyblyg a gellir ei addasu, ac nid yw'n seiliedig ar dicio blychau yn unig.

Awgrymodd **Nick Ramsay AC** i Joyce Watson y gallai'r Pwyllgor Menter a Busnes drafod amrywiaeth yn y sector adeiladu, ac roedd Joyce Watson yn cytuno.

Ychwanegodd **Anthony Rees (Rheolwr Rhanbarthol, Cynllun Prentisiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru)** mai'r nod oedd sicrhau bod yr ymgeiswyr cywir yn cael y neges gywir ar yr adeg gywir. Mae llawer o'r ymgeiswyr gorau ar gyfer y diwydiant yn dilyn trywydd academaidd am nad ydynt yn cael cyngor yn ddigon cynnar, ac mae problemau o ran parch cydradd o hyd.

DRAFT

Ychwanegodd **Joy Kent (Chwarae Teg)** fod gan y cyfryngau cymdeithasol rôl bwysig i'w chwarae wrth gyrraedd pobl ifanc, a chyfleu negeseuon gan y rhai hynny sy'n gosod esiampl.

Estynnodd **Joyce Watson AC** ddiolch i bawb a oedd yn bresennol.

**Camau i'w cymryd**

- **Nick Ramsay AC** a **Joyce Watson AC** i awgrymu y gallai'r Pwyllgor Menter a Busnes drafod amrywiaeth yn y sector adeiladu.

DRAFT